| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | FFORWM CYLLIDEB YSGOLION |
| **DYDDIAD** | 18 Mehefin 2018 |
| **TEITL** | Grantiau Ysgolion 2018/19 |
| **PWRPAS** | Er gwybodaeth |
| **ARGYMHELLIAD** | Derbyn yr adroddiad |
| **AWDUR** | Garem Jackson,<br>Pennaeth Addysg |
| **AELOD CABINET DROS ADDYSG** | Y Cynghorydd Gareth Thomas |

**Dyma grynodeb fesul sector o'r gwahanol grantiau am 2018/19 –**

| Ysgolion | *GDD 5-15oed* | *GDD dan 5oed* | **GDD cyfanswm** | *GGA Cyfnod Sylfaen damcan-iaethol* | *GGA Eraill* | **GGA cyfanswm** | **Grant 6ed dosbarth** | **Cyfanswm grantiau** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cynradd | *£1,187,950* | *£267,400* | **£1,455,350** | *£2,859,037* | *£521,679* | **£3,380,717** | | **£4,836,067** |
| Canol | *£71,300* | *£9,100* | **£80,400** | *£105,090* | *£32,780* | **£137,870** | | **£218,270** |
| Uwchradd | *£750,950* | | **£750,950** | | *£332,079* | **£332,079** | **£3,182,291** | **£4,265,320** |
| Arbennig | *£35,650* | *£0* | **£35,650** | | *£16,197* | **£16,197** | | **£51,847** |
| **Cyfanswm** | ***£2,045,850*** | ***£276,500*** | **£2,322,350** | ***£2,964,127*** | ***£902,735*** | **£3,866,735** | **£3,182,291** | **£9,371,504** |

Mae **atodiad 1** yn manylu ar y prif grantiau sydd wedi'i datganoli i pob ysgol yng Ngwynedd am 2018/19 – cyfanswm o £9.4miliwn uwchben y £70miliwn a ddyrennir gan y Cyngor.

**Grant Datblygu Disgyblion (GDD) 2018/19 £2,322,350** (2017/18 £2,271,450)
Dyrennir y grant ar sail nifer disgyblion gyda hawl cinio am ddim. Ar gyfer yr elfen disgyblion o oed ysgol statudol 5-15 oed £1,150 y pen a £700 y pen am yr elfen disgyblion dan 5 oed. Pwrpas y grant ydi targedu ein disgyblion mwyaf difreintiedig i wella safonau llythrennedd, rhifedd a hefyd i gau'r bwlch rhwng y plant hyn a'u cyfoedion.

Fel yn 2017/18 mae'r grant ar sail ystadegau cinio am ddim PLASC Ionawr 2016 ar gyfer y blynyddoedd cyllidol 2018/19 ac hefyd 2019/20.

**Grant Gwella Addysg (GGA) 2018/19 £4,925,601** (2017/18 £5,217,001)
Pwrpas y GGA ydi codi safonau addysgu. Mae fformiwla benodol ar gyfer adnabod elfen ddamcaniaethol ar gyfer y Cyfnod Sylfaen, gyda gofyn i weithio tuag at gymhareb o 1:8 oedolyn i ddisgyblion yn y blynyddoedd meithrin a derbyn a chymhareb o 1:15 ym mlynyddoedd 1 a 2.

Mae gweddill y GGA yn cael ei ddyrannu ar sail 80% nifer disgyblion a 20% ar sail niferoedd cinio am ddim.

Dosbarthiad Rhwydwaith 14-16oed a Canolfannau Iaith i'w gadarnhau.

Toriad sylweddol yn y grant ar lefel Cymru -11.4% yn 2018/19 ac -8.5% pellach yn 2019/20.

**Mae GwE yn cynnig cefnogaeth gynhwysfawr i ysgolion ar eu defnydd o'r GGA a'r GDD, gan gymryd cyfrifoldeb dros fonitro a herio'u defnydd o'r cyllid hwn.**

**Grant 6ed dosbarth 2018/19 £3,182,291** (2017/18 £3,407,388)
O'r 13 ysgol uwchradd yng Ngwynedd mae 7 yn darparu cyrsiau 6ed dosbarth. Mae'r grant yn cael ei ddyrannu ar sail cyfuniad o nifer disgyblion/nifer cyrsiau, amddifadedd, gwasgaredd ac addysg cyfrwng Gymraeg.

Eisoes wedi derbyn rhybudd gan Llywodraeth Cymru y bydd toriad -£9.8miliwn neu -10% ar lefel Cymru yn 2019/20, cyfateb i leihad o oddeutu -£320,000 (-£380,000 mewn termau real neu -12%) ar draws y saith Ysgol Uwchradd sydd gyda 6ed dosbarth yng Ngwynedd.